

Ymateb i ymgynghoriad gwrth-hiliaeth Cymru - Tirweddau Cymru Landscapes Wales (TCLW)

Fy enw i yw Anna Jones ac rwy'n Arweinydd Strategol Rhagoriaeth Cynhwysiant, Amrywiaeth a Llywodraethu a benodwyd gan Lywodraeth Cymru. ac a gynhelir gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro. Rwy'n gweithio ar draws yr wyth Tirwedd Dynodedig yng Nghymru – ein tri Awdurdod Parc Cenedlaethol a'n pum AHNE. Rwy'n cyflwyno'r dystiolaeth hon ar ran Tirweddau Cymru Landscapes Wales (TCLW), sef partneriaeth o Dirweddau Dynodedig Cymru, sy'n cwmpasu 25% o dir y wlad.

Er nad oes gan ein Tirweddau Ddynodedig yng Nghymru gyfrifoldeb uniongyrchol am y meysydd polisi penodol sy'n peri pryder (a amlinellwyd yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20fed o Fawrth 2023), mae gan Tirweddau Dynodedig rôl bwysig ac annatod i'w chwarae wrth roi Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliol Cymru (ARWAP) ar waith, yn enwedig mewn perthynas â'r meysydd polisi canlynol fel yr amlinellir yn y Cynllun: arweinyddiaeth a byrddau, diwylliant a threftadaeth, addysg (e.e. prosiectau dysgu awyr agored), iechyd (e.e. mynediad i Dirweddau a natur) ac fel awdurdodau lleol (e.e. rôl Awdurdodau Parciau Cenedlaethol fel cyrff cyhoeddus). Rydym yn croesawu ac yn aros am Gynllun Gweithredu Gwrth-hiliol Cymru sy'n ymwneud yn benodol â'r Newid yn yr Hinsawdd, yr Amgylchedd a Materion Gwledig sy'n cydnabod effaith gymhleth a chroestoriadol ein sector ar draws amrywiol feysydd polisi. Edrychwn ymlaen at gael rôl fwy gweithredol wrth weithredu'r Cynllun hwn a'r diweddariadau wrth symud ymlaen. Gobeithir hefyd y bydd y Cynllun hwn yn helpu Tirweddau Dynodedig i lunio eu Hamcanion a Chynlluniau Cydraddoldeb gan fod llawer i'w hadolygu yn y dyfodol agos.

Mae gennyf y sylwadau cyffredinol a ganlyn i'w gwneud ynghylch gweithredu'r ARWAP:

Diweddariadau a hyfforddiant gwrth-hiliaeth – tudalen ar y we ar gyfer cydlynu gwybodaeth

Mae darparu cyfleoedd ar gyfer hyfforddiant a dysgu ynghylch gwrth-hiliaeth yn flaenoriaeth allweddol ar gyfer Tirweddau Dynodedig, ac mae nifer o staff wedi elwa o ddarpariaeth ehangach ARWAP hyd yn hyn.

Croesawyd yr Uwchgynhadledd Gwrth-hiliaeth Gwasanaeth Cyhoeddus, e-byst Bwletin Rhanddeiliaid, a'r gweminarau misol ar-lein newydd gan Dirweddau Dynodedig. Maent yn darparu cyd-destun cefndir, gwybodaeth, a diweddariadau ar gyfer ARWAP. Rwyf yn bersonol wedi mynychu cyfleoedd hyfforddi addysg, prosesau recriwtio teg a'r sector amgueddfeydd / dehongli ac wedi'u rhaedru i staff a thimau perthnasol sy'n gweithio ac yn darparu yn y meysydd hyn. Rydym yn aros am becyn hyfforddi mwy penodol ar gyfer arweinwyr, staff ac aelodau Tirweddau Dynodedig. Yr hyn a ddeallaf gan y tîm gweithredu yw eu bod ar hyn o bryd yn y broses o archwilio darpariaeth hyfforddiant gwrth-hiliol y gellir ei haddasu i anghenion gwahanol gyrrff cyhoeddus, sy'n galonogol iawn. Byddem yn cefnogi holl arweinwyr, staff ac aelodau Tirwedd Ddynodedig i ymgymryd â hyfforddiant gwrth-hiliaeth, ac unrhyw gamau sy'n dilyn i ymgorffori amcanion gwrth-hiliaeth atebol, gan sicrhau dull gweithredu gwirioneddol sy'n seiliedig ar weithredu a chynnwys gwaith gwrth-hiliaeth.

Byddai'n ddefnyddiol cael tudalen gwe neu 'Hwb' gyda manylion diweddariadau, digwyddiadau sydd i ddod, adnoddau defnyddiol (e.e. polisiâu gwrth-hiliaeth, sut i adrodd am hiliaeth ac ati) a hyfforddiant i gyd mewn un lle ar gyfer cyfeirio effeithiol i staff; er enghraifft yr hyfforddiant gwrth-hiliaeth DARPL a gofnodwyd.

Recriwtio a mentora bwrdd

Mae'r datblygiadau a amlinellwyd yn ARWAP o ran recriwtio a mentora bwrdd yn galonogol, ac edrychwn ymlaen at ragor o ddiweddariadau yn y maes hwn. Er enghraifft, mynychais yr hyfforddiant arferion recriwtio teg diweddar a gyflwynwyd yn dda iawn. Byddwn yn cael fy nghalonogi o weld hyfforddiant tebyg yn cael ei gyflwyno'n fwy penodol i benodiadau cyhoeddus yn y sector amgylcheddol.

Fel sylw, mae nifer o raglenni grwpiau mentor unigol yn bodoli sy'n ceisio cynyddu amrywiaeth cynrychiolaeth ym mywyd cyhoeddus a gwleidyddol Cymru, e.e. Pŵer Cyfartal, Llais Cyfartal. Dylai unrhyw gyfleoedd mentora a archwilir gan ARWAP a Llywodraeth Cymru sicrhau cydgysylltu a gweithio mewn partneriaeth â'r rhaglenni hyn.

Cynnydd a threfniadau monitro

Byddai diweddariad ymarferol yn seiliedig ar weithredu ar gynnydd yn cael ei groesawu'n fawr, yn enwedig o ran y cyfleoedd dysgu y gall hyn eu cynnig. Fodd bynnag, yn ôl yr hyn a ddeallaf, mae'r gweminarau misol yn debygol o roi sylw manwl i gynnydd a heriau amrywiol feysydd polisi, sy'n newyddion i'w groesawu.

Nid ydym hyd yma wedi cael ffordd ffurfiol o adrodd ar ein cynnydd fel Tirweddau Dynodedig, ac yn achos Awdurdodau Parciau Cenedlaethol fel cyrff cyhoeddus. Efallai y bydd fframwaith adrodd ar gyfer ein sector yn datblygu ar yr un pryd â Chynllun Gweithredu Gwrth-hiliol Cymru, sy'n benodol i Newid yn yr Hinsawdd, yr Amgylchedd a Materion Gwledig. Byddem yn croesawu unrhyw drefniadau y gallwn eu defnyddio i gynorthwyo gyda monitro a chynnydd.